1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Rhifyn 35 - Mehefin 2019




# Dathlu rhagoriaeth mewn addysgu

## Dathlwyd rhagoriaeth mewn addysgu ymhlith staff academaidd ac ôl-raddedig mewn digwyddiad arbennig a gynhaliwyd gan Uned Gwella Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol ym Mhrifysgol Aberystwyth ddydd Llun 24 Mehefin 2019.

Llongyfarchwyd tri deg naw aelod staff a phedwar ar ddeg o diwtoriaid ôl-raddedig am ennill cymwysterau addysgu a lefelau amrywiol o Gymrodoriaethau AdvanceHE yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Dyfarnwyd gwobrau i ddau ddarlithydd ac un tiwtor ôl-raddedig am gyflawniad rhagorol.


Cyflwynwyd Gwobr Addysgu i Uwchraddedigion Prifysgol Aberystwyth i Nina Sharp, tiwtor ôl-raddedig yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, am y darn mwyaf myfyriol ac ystyriol am ei thaith addysgu.

Derbyniodd Yvonne Rinkart o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol, a Dr Kim Kenobi o'r Adran Fathemateg wobrau cyflawniad rhagorol yn y Dystysgrif Ôl-raddedig Addysgu mewn Addysg Uwch.

Gall tiwtoriaid ôl-raddedig a staff academaidd a chanddynt ddiddordeb mewn datblygu eu hymarfer addysgu proffesiynol drwy'r cynllun Addysgu i Uwchraddedigion neu'r Dystysgrif Ôl-raddedig Addysgu mewn Addysg Uwch, neu'r rhai hynny a fyddai'n hoffi cydnabyddiaeth am ymarfer addysgu da, ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (www.aber.ac.uk/cy/cdsap).

*O'r chwith i'r dde: Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mary Jacob, Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu; Kim Kenobi enillydd cyflawniad rhagorol yn y Dystysgrif Ôl-raddedig Addysgu mewn Addysg Uwch; Nina Sharp enillydd Gwobr Dysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor ac Annette Edwards o'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu.*

4 Gwobrau Staff a Myfyrwyr UMAber

6 Golwg ar... Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol

8 Y diweddaraf am Milfeddygol1


12 Fy ngwaith ymchwil

15 Adnoddau Digidol Newydd


Cyhoeddir Newyddion Aber gan y Tîm **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus,** Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622578
**E-bost:** cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Aber ar gael ym mis **Hydref**. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Mercher 14 Awst**.



Gwnaeth yr Is-Ganghellor weini bwyd yn TaMed Da ar Ddiwrnod Gwisgo Coch.



Gwisgodd staff o'r adrannau Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg goch a phrynu cacennau cri, gan godi £64.

# Codi Arian ar gyfer Elusen y Flwyddyn y Brifysgol

## Mae staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer Elusen y Flwyddyn y Brifysgol, sef Ambiwlans Awyr Cymru.

Roedd 'Diwrnod Gwisgo Coch' ar ddydd Gwener 1 Mawrth yn llwyddiant mawr. Yn ogystal ag aelodau o staff yn gwisgo coch ac yn rhoi arian, trefnodd nifer o adrannau stondinau cacennau a thwbâu lwcus.  Yn TaMed Da paratowyd bwydlen Dydd Gŵyl Dewi arbennig, gyda chanran o bob pryd a werthwyd yn mynd i Elusen y Flwyddyn y Brifysgol, a chodwyd £637.

Gwnaeth bocsys casglu yn y lleoliadau bwyd ar y campysau godi £200.

Cododd cyngherddau gan AberOpera ym mis Chwefror a mis Mawrth £285.

Cynhaliwyd proses i enwebu a phleidleisio ar gyfer Elusen y Flwyddyn y Brifysgol ar gyfer 2019-20 yn ddiweddar. Bydd yr elusen a ddewiswyd yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr Wythnos Raddio, 16-19 Gorffennaf.

**Y cyfanswm hyd yn hyn yw: £4,625**





Treuliodd merched Jeremy Mabbutt, Pennaeth y Gwasanaethau Croeso, ddiwrnod olaf eu gwyliau hanner tymor yn helpu gyda'r twba lwcus yn TaMed Da, a chodwyd ychydig o dan £200.

Cododd staff o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu £89 gyda'u stondin gacennau.




Cododd y Stondin Gacennau a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Is-Ganghellor £230.



# Codi Arian i Ward Leri

Cynhaliodd Tîm Adnoddau'r Brifysgol stondin gacennau yn Adeilad Llandinam ar 14 Chwefror, i godi arian i Ward Leri yn Ysbyty Bronglais, lle mae un o'u tîm yn cael triniaeth ar hyn o bryd. Gwnaethpwyd elw o £382. Llawer o ddiolch i bawb a roddodd ac a brynodd gacennau, ac a drefnodd i gynnal yr achlysur hynod llwyddiannus hwn.

## Colofn yr Is-Ganghellor



Wrth i mi ysgrifennu, drwy ffenest fy swyddfa gallaf glywed seiniau aflafar o'r hyn sydd bellach yn safle adeiladu neuadd Pantycelyn. Mae'n tynnu fy sylw ar adegau, ond rwy'n croesawu hynny gan ei fod yn arwydd o gynnydd cyson y gwaith ailwampio ac yn y pen draw ailagor y neuadd breswyl bwysig hon ym mis Medi 2020. Gallaf glywed hefyd grŵn peiriant torri glaswellt yn y pellter rywle ar ein campws gwyrdd godidog - sy'n arwydd bod yr haf yn wir wedi dod, er bod y tywydd yn awgrymu fel arall. Cyn hir byddwn yn ymgynnull fel cymuned i ddathlu llwyddiannau ein myfyrwyr blwyddyn olaf a ffarwelio â charfan arall o raddedigion Aber wrth iddynt gychwyn ar eu taith i wneud eu marc ar y byd ehangach. Parhau'n ddi-dor mae rhythmau rheolaidd bywyd y brifysgol.

Bu'r flwyddyn academaidd ddiwethaf yn nodedig gyda dau ben-blwydd pwysig iawn, wrth i ni ddathlu canmlwyddiant ein Hadran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a nodi can mlynedd o fridio planhigion yn Aberystwyth. Dwy ddisgyblaeth wahanol iawn sydd ers 1919 wedi gwneud cyfraniad enfawr i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu ein byd ac sydd wedi codi statws Aberystwyth ar y llwyfan byd-eang. O George Stapledon ac Alfred Zimmern i'n hymchwilwyr ni heddiw, mae ein dyled yn fawr fel sefydliad i weledigaeth, ymrwymiad a gwybodaeth arbenigol staff y gorffennol a'r presennol.

Cafwyd rhesymau mwy prudd dros y misoedd diwethaf hefyd i edrych yn ôl ar gyfraniadau staff i'r Brifysgol. Ar 8 Mehefin 2019, clywsom y newyddion trist am farwolaeth ein cyn Is-Ganghellor yr Athro Noel Lloyd - mathemategydd blaenllaw a wasanaethodd ein sefydliad gydag ymroddiad, diwydrwydd a rhagoriaeth am dros 30 mlynedd. Hefyd collom ni'r ffisegydd rhagorol yr Athro Neville Greaves ym mis Mehefin a syfrdanwyd ein cymuned glos yn gynharach eleni gyda marwolaeth y Cynghorydd Paul James mewn damwain seiclo drasig ar gyrion Aberystwyth. Bu Paul yn gweithio fel Swyddog Diogelwch i ni am dros 20 mlynedd ac roedd wrthi'n hyfforddi ar gyfer taith feicio elusennol. Byddwn yn eu cofio nhw ac eraill am eu gwasanaeth gwerthfawr a'r gwaddol ar eu hôl.

Does dim amheuaeth mai ein pobl yw ein hased mwyaf. Dros y chwe mis diwethaf, rwyf i wedi bod yn ymweld â'n hadrannau academaidd i siarad yn uniongyrchol gyda staff am eu gwaith, ateb cwestiynau, clywed pryderon a thrafod syniadau at y dyfodol. Ar ôl cwblhau'r ymweliadau academaidd hyn, byddaf yn gwneud taith debyg o gylch yr adrannau gwasanaeth proffesiynol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, a bwriadaf barhau â'r ymweliadau hyn yn flynyddol ynghyd â chynnal o leiaf ddau gyfarfod i'r holl staff bob blwyddyn. Mae deialog a chyfathrebu rheolaidd yn bwysig mewn sefydliad mawr fel hwn, ac rwy'n credu ein bod ni ar ein gorau pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd er budd pawb.

Mae ein Diwrnodau Agored yn enghraifft ddisglair o'r sefydliad cyfan yn cydweithio at nod cyffredin. Er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu, rydym ni'n raddol yn adeiladu gwydnwch a chynaladwyedd at y dyfodol. Myfyrwyr sydd wrth galon popeth a wnawn ac mae ein lefelau uchel cyson o foddhad gydag addysgu, adborth a chyrsiau'n peri eiddigedd mewn llawer o SAUau eraill. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar Ddiwrnod Agored cyntaf y flwyddyn ddydd Mercher 10 Gorffennaf wrth i ni arddangos gyda'n gilydd yr hyn sy'n arbennig am brofiad Aber ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o israddedigion i'n dewis ni.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
Is-Ganghellor

# Diwrnod Iechyd a Lles Staff

IECHYD A LLES YN Y GWEITHLE
HEALTH AND WELLBEING AT WORK

## Yn dilyn llwyddiant y Diwrnod Iechyd a Lles y llynedd, mae Grŵp Llywio Iechyd Corfforaethol y Brifysgol unwaith eto'n trefnu amrywiaeth o sesiynau a gweithdai i staff ddydd Gwener 5 Gorffennaf rhwng 10:00 - 15:00 yn Medrus.

Bydd gennym arddangoswyr hen a newydd ac amrywiaeth eang o weithgareddau, cyflwyniadau a sesiynau blasu gan gynnwys:

- Sgyrsiau
- Tylino ac Aromatherapi
- Osteopathi
- Dadansoddiad o'r corff
- Pwysedd gwaed, colesterol a phrofion glwcos
- Gostyngiad ar giniawau iach
- Origami
- Ioga

Mae dau beth newydd hefyd ar y rhaglen eleni - cystadleuaeth ffotograffiaeth a thaith gerdded/ ras 5k.

Mae'r holl sesiynau ar agor i bob aelod o staff a rhaid cadw lle o flaen llaw ar gyfer rhai ohonynt.

Y cyntaf i'r felin yw hi er mwyn peidio cael eich siomi a gall aelodau staff ofyn am gael eu rhyddhau'n ffurfiol gan eu rheolwyr llinell i gymryd rhan, yn amodol ar anghenion gweithredol.

I weld y rhaglen lawn a chadw lle ar sesiynau unigol, ewch i dudalen we Diwrnod Iechyd a Lles y Brifysgol www.aber.ac.uk/cy/hr/health-wellbeing-event

# Gwobrau Staff a Myfyrwyr UMAber

Cynhaliwyd Gwobrau Staff a Myfyrwyr blynyddol Undeb Myfyrwyr Aber nos Fawrth 2il Ebrill. Cyflwynwyd 14 gwobr eleni, gan roi cydnabyddiaeth i staff, myfyrwyr sy'n gwirfoddoli a chynrychiolwyr academaidd ledled y Brifysgol.

Dywedodd Megan Hatfield, Swyddog Materion Academaidd yn Undeb Myfyrwyr Aberystwyth: *"Roedd hi'n bleser cynnal Gwobrau Staff a Myfyrwyr UMAber eleni. Roedd y noson yn gyfle gwych i ddathlu'r bobl hynny sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth yn lleoliad mor fendigedig – y darlithwyr sy'n mynd y filltir ychwanegol i wneud eu pwnc yn hwyl ac yn ddifyr, a'r myfyrwyr sy'n Gynrychiolwyr Academaidd, yn Gwirfoddoli, yn Fentoriaid ac yn Swyddogion Gwirfoddol sydd oll yn gweithio'n galed i gynrychioli a chefnogi myfyrwyr eraill.*

*Mae'r gwobrau yn gyfle i gydnabod a gwobrwyo staff a myfyrwyr, ac maent wedi'u harwain gan fyfyrwyr drwy'r holl broses o enwebu eu cyfoedion neu staff, i gyflwyno'r gwobrau yn y seremoni. Roedd yn anrhydedd cael bod yn rhan o'r digwyddiad a gweld y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan bobl yn y Brifysgol."*




Aelodau'r Adran Seicoleg, a enillodd Adran y Flwyddyn 2019



Panna Karlinger (Mathemateg), Myfyriwr-fentor y Flwyddyn



Yr Athro Karl Hoffmann (IBERS), Goruchwyliwr y Flwyddyn



Enillydd Gwobr Clod Arbennig, Dr Kathy Hampson o Adran y Gyfraith a Throseddeg, gyda Swyddog y Myfyrwyr Annibynnol



Doug Kerr (Gwasanaeth Cymorth Myfyrwyr), enillydd Aelod Staff Ategol/ Gwasanaeth y Flwyddyn, gyda Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber 2019-20

Llongyfarchiadau i bawb a gafodd eu henwebu, ac i enillwyr eleni:

**Goruchwyliwr y Flwyddyn**
Yr Athro Karl Hoffmann (IBERS)

**Athro/athrawes Ôl-raddedig y Flwyddyn**
Angharad Ffion James (y Gyfraith a Throseddeg)

**Tiwtor Personol y Flwyddyn**
Yr Athro Andrew Evans (Ffiseg)

**Darlithydd y Flwyddyn**
Deena Bhoyroo (Campws Cangen Mawrisiws Prifysgol Aberystwyth)

**Aelod Staff Ategol / Gwasanaeth y Flwyddyn**
Doug Kerr (Gwasanaeth Cymorth Myfyrwyr)

**Gwobr Adborth Eithriadol**
Dr Simon Payne (IBERS)

**Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg**
John Davies (IBERS)

**Gwobr Cam Nesaf**
Dr Ian Birchmore (Busnes)

**Myfyriwr-fentor y Flwyddyn**
Panna Karlinger (Mathemateg)

**Swyddog Gwirfoddol y Flwyddyn**
Joao Louro (IBERS)

**Myfyriwr-wirfoddolwr y Flwyddyn**
Robin Church (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear)

**Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn**
Aaron Phillips (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu)

**Arwain Cydraddoldeb**
Dr Adam Vellender (Mathemateg)

**Clod Arbennig**
Dr Kathy Hampson (y Gyfraith a Throseddeg)

**Adran y Flwyddyn**
Seicoleg

Gellir gweld rhagor o luniau o'r noson ar dudalen Facebook UMAberSU.

# Ethol academyddion o Aber yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru

## Llongyfarchiadau i'r pum academydd o Brifysgol Aberystwyth sydd ymhlith 48 o Gymrodyr newydd a ymunodd â Chymdeithas Ddysgedig Cymru eleni:

- Yr Athro Matthew Jarvis (Cymrawd Athrawiaethol mewn Llenyddiaeth a Lle yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol)
- Yr Athro Peter Midmore (Athro Economeg yn Ysgol Fusnes Aberystwyth)
- Dr Helen Ougham (Darllenydd Emeritws yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig)
- Yr Athro Phillipp Schofield (Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru)
- Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens (Athro Emeritws yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu)

Sefydlwyd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2010, ac mae'n defnyddio gwybodaeth ei harbenigwyr i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysg a darparu cyngor polisi annibynnol. Mae ychwanegu Cymrodyr newydd bob blwyddyn, o'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thu hwnt, yn cynorthwyo'r Gymdeithas i gyflawni'r nodau hyn.

Mae etholiad i'r Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth; mae'n gystadleuol iawn, ac fe'i cynhelir yn dilyn archwiliad trylwyr o gyflawniadau'r rheiny a enwebir yn eu meysydd perthnasol.

Ceir rhestr lawn o'r Cymrodyr newydd sydd wedi'u hethol ar lein: www.cymdeithasddysgedig.cymru/ein-cymrodyr

# Graddio 2019

## Cynhelir Wythnos Raddio 2019 rhwng dydd Mawrth, 16 Gorffennaf a dydd Gwener, 19 Gorffennaf yn y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Yn ystod yr wythnos, bydd naw Cymrodoriaeth er Anrhydedd yn cael eu cyflwyno i unigolion sydd â chysylltiad ag Aberystwyth neu Gymru, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol yn eu dewis faes.

Dyma Gymrodyr er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth 2019 (yn y drefn y'u cyflwynir):

- Alan Phillips, athro cerdd peripatetig wedi ymddeol a fu'n gweithio i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am 35 mlynedd
- Yr Athro Frank N. Hogg OBE, Pennaeth sefydlol Coleg Llyfrgellyddiaeth Cymru
- Ruth Bidgood, bardd a hanesydd lleol
- Yr Athro R Geoff Richards, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil AO Davos (y Swisdir) – un o'r sefydliadau ymchwil sy'n arwain y byd ym maes orthopedeg
- Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol a Chyn Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru
- Yr Athro Virginia Gamba, arbenigwraig ym maes diarfogi a llunio polisi
- Ian Hopwood, a fu'n gweithio ym maes datblygu ers dros 40 mlynedd ym Mhencadlys UNICEF ac mewn aseiniadau maes yn Affrica, Asia, a Thaleithiau'r Gwlff Arabaidd
- Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, cyn-Brif Weinidog Cymru a chyn-Arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru 2009-18
- Judith Diment, sy'n amlwg yn fyd-eang yn yr ymgyrch i gael gwared ar bolio

## Pwy sy'n graddio pryd?

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf - **Seremoni 1**
11yb Cyfrifiadureg, Mathemateg, Ffiseg

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf - **Seremoni 2**
3yp Ysgol Fusnes Aberystwyth, Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau

Dydd Mercher 17 Gorffennaf - **Seremoni 3**
11yb Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (Amaethyddiaeth), Seicoleg

Dydd Mercher 17 Gorffennaf - **Seremoni 4**
3yp Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (Bioleg), Ieithoedd Modern

Dydd Iau 18 Gorffennaf - **Seremoni 5**
11yb Theatr, Ffilm a Theledu, Addysg, Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Dydd Iau 18 Gorffennaf - **Seremoni 6**
3yp Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Dydd Gwener 19 Gorffennaf - **Seremoni 7**
11yb Celf, Cyfraith a Throseddeg

Dydd Gwener 19 Gorffennaf - **Seremoni 8**
3yp Daearyddiaeth a Gwyddor Daear Hanes a Hanes Cymru

# Golwg ar…
# Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol

Mae Canolfan Chwaraeon y Brifysgol wedi bod yn cynnig cyfleoedd chwaraeon a hamdden i fyfyrwyr a staff, yn ogystal â chymuned ehangach Aberystwyth, ers dros hanner canrif bellach. Cafodd Newyddion ABER sgwrs â Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon, Darren Hathaway, i gael gwybod rhagor am yr hyn y mae'r Ganolfan Chwaraeon yn ei gynnig:

**Dywedwch ychydig wrthym am hanes y cyfleusterau chwaraeon yn y Brifysgol?**
Cynhaliwyd arolwg ar fyfyrwyr a'u gweithgareddau chwaraeon yn 1937 gan Gyd-bwyllgor y Coleg a'r Myfyrwyr, ac yn sgil hwnnw penderfynwyd bod adeiladu pwll nofio yn flaenoriaeth.

Hwn oedd yr ail adeilad i gael ei adeiladu ar Gampws Penglais, cwblhawyd y pwll nofio yn 1945, diolch i grant o £10,000 gan y Cyngor Ffitrwydd Cenedlaethol, ynghyd â chyllid ychwanegol o daliad hawliadau'r Coleg o dan Ddeddfau Eglwysi Cymru, ac arian y Coleg ei hun.

Cafodd arwynebedd y trac rasio a'r cae pob tywydd, gyferbyn â'r pwll, eu cloddio a'u lefelu ar yr un pryd.

Agorwyd y Ganolfan Chwaraeon yn swyddogol gryn dipyn yn ddiweddarach ar 20 Mai 1964 gan Syr William Pugh OBE, sef Llywydd Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr y Coleg ar y pryd. Roedd yn bosibl codi'r neuadd trwy gyfraniadau gan gyn-fyfyrwyr ynghyd â rhodd gan yr Arglwydd Davies cyntaf.

**Pa gyfleusterau sydd gan y Ganolfan Chwaraeon y dyddiau hyn?**
Heddiw mae gan y Ganolfan Chwaraeon ddwy neuadd chwaraeon amlbwrpas, Stiwdio Ddawns, Stiwdio Sbin, a 5 ardal ffitrwydd (Ystafell Cardio, Ardal Cryfder, Ardal i Ferched yn Unig, Ystafell Llwytho Platiau a Phwysau Rhydd Cryfder a Chyflyru).

Mae gennym hefyd wal ddringo, pwll nofio a sawnariwm.

Y tu allan mae gennym 3G hyfforddiant bach a maint llawn, trac rhedeg 400m sydd â dwy lôn a llifoleuadau (yn ogystal â'r un arwyneb Mondo ag yng Ngemau Olympaidd 2012), tri chwrt tennis, a thros 40 erw o gaeau chwarae ar gyfer pêl-droed, rygbi, lacrosse, criced, a phêl-droed Americanaidd.

**Pa weithgareddau y mae staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill yn gallu eu gwneud yn y Ganolfan Chwaraeon?**
Yn ogystal â defnyddio'r holl gyfleusterau y soniwyd amdanynt eisoes, mae'r Ganolfan Chwaraeon yn cynnal dros 60 o ddosbarthiadau ymarfer corff yr wythnos (o Zumba i hyfforddiant cylchol, Ioga, Pilates, Therapi Dŵr a Gofalu am eich Cefn, hyfforddiant dwysedd uchel ysbeidiol [HIIT] a beicio dan do), ac mae gennym sesiynau badminton a phêl-droed i staff sy'n rhedeg yn wythnosol.

Rydym hefyd yn cynorthwyo mwy na 30 o dimau chwaraeon y Brifysgol bob wythnos, bron i 50 o glybiau cymunedol ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion lleol yn defnyddio ein cyfleusterau yn ystod y flwyddyn.

**Faint o bobl sy'n defnyddio'r Ganolfan Chwaraeon bob blwyddyn?**
Byddai ein hamcangyfrifon gorau yn rhoi cyfanswm o rhwng 250,000 a 300,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Ers ein buddsoddiad diweddar i ddiweddaru'r cyfleusterau, mae nifer yr ymweliadau â'r Ganolfan Chwaraeon wedi cynyddu 40,000 dros y 24 mis diwethaf ac rydym wedi bod 12% yn brysurach na 2018/19 hyd yma.

**Beth y tybiwch y mae darpariaeth y Ganolfan Chwaraeon yn ei ychwanegu at brofiad myfyrwyr yn Aber?**
Mae ymchwil wedi dangos bod ymarfer corff yn helpu i feithrin cryfder ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn ogystal â bod yn hwyl!

Gobeithiwn fod sicrhau mynediad mor rhwydd i'r cyfleusterau i fyfyrwyr yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, iechyd a lles.

Ar y dechrau mae llawer o bobl sydd ddim yn ystyried eu hunain yn 'sborti' yn gallu bod yn gyndyn i gymryd rhan mewn ymarfer corff oherwydd eu bod yn teimlo'n hunanymwybodol. Rydym yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau hynny i wneud ymarfer corff drwy gynnig aelodaeth myfyrwyr sy'n werth am arian ac yn flaenllaw yn y sector a thrwy gynnig croeso cynnes a chyfeillgar a chefnogaeth barhaus.

Mae hyn, ynghyd â chyfleusterau o'r radd flaenaf wedi'u lleoli'n gyfleus ar y campws (yn hytrach nag wedi'u gwasgaru ar draws y dref fel mewn prifysgolion mwy o faint) yn rhoi cyfle unigryw i fyfyrwyr yn Aber gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

**Beth yw'r prif beth y mae pobl yn ei dybio am y Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol sy'n anghywir?**
Byddech yn synnu bod rhai pobl yn credu nad ydym yn rhan o'r Brifysgol, ond yn hytrach yn rhyw endid chwaraeon sy'n cyfateb i fasnachfraint Costa Coffee ar y campws.

Nid yw llawer o'r gymuned leol yn gwybod y gallant gael mynediad i'n cyfleusterau, ac mae'r rhai sy'n gwneud hynny am i hyn aros yn gyfrinach!



# Rygbi Cerdded

## Yn gynharach eleni, sefydlwyd Tîm Rygbi Cerdded yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol.

Mae Rygbi Cerdded yn fersiwn effaith isel, heb unrhyw gyffyrddiad, o rygbi cyffwrdd. Mae'n weithgaredd hwyliog a hygyrch sy'n addas i bobl o bob oed, rhyw, gallu a lefel ffitrwydd – mae'r sesiynau'n cael eu teilwra i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae oddeutu 10-13 o bobl yn dod bob wythnos, yn amrywio o fyfyrwyr 20 oed, i rai yn eu 70au. Mae rhai yn gweithio ac eraill wedi ymddeol. Mae rhai yn gyn-chwaraewyr rygbi ac eraill erioed wedi chwarae rygbi o'r blaen. Mae yna rai sy'n gofalu am rieni hŷn, a rhywun sy'n mynychu sesiynau adferiad cardiaidd yma yn y Brifysgol. Mae'r sesiynau i bawb, ac mae'n ffordd dda o gymdeithasu.

Ar 29 Ebrill, cafodd y tîm y fraint o gael eu gwahodd i chwarae yn Stadiwm y Principality yn rhan o ddigwyddiad cenedlaethol a drefnwyd gan Undeb Rygbi Cymru. Yno chwaraeodd y tîm bedair gêm – yn erbyn Pontypridd, Caerdydd, Treorci a Thorfaen – yn ogystal â chael defnyddio'r ystafelloedd newid swyddogol a chael croeso arbennig i'r cae cyn y gêm gyntaf!

Cynhelir y sesiynau Rygbi Cerdded yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol bob wythnos ar fore dydd Mawrth am 11yb. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim, a'r unig beth sydd arnoch ei angen yw dillad chwaraeon, treinyrs, a diod.

I gael rhagor o wybodaeth am Rygbi Cerdded, mae croeso i chi gysylltu â mi: dlt7@aber.ac.uk / 01970 628662.

**Llŷr Thomas**
Swyddog Rygbi Prifysgol Aberystwyth






# Achrediad i'r Gwasanaethau Hygyrchedd

Am yr ail flwyddyn o'r bron, dyfarnwyd statws cyflenwyr achrededig i staff ategol 'Cymorth An-feddygol' mewnol Prifysgol Aberystwyth gan Grŵp Sicrhau Ansawdd y Lwfans Myfyryr Anabl.

Mae'r aelodau staff hyn yn rhan o Wasanaethau Hygyrchedd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd. Maent yn cynnwys mentoriaid iechyd meddwl ac awtistiaeth, tiwtoriaid sgiliau astudio arbenigol i fyfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu penodol (megis dyslecsia), a hyfforddwyr technoleg gynorthwyol sy'n gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth.

Mae dros 600 o fyfyrwyr Aberystwyth yn cael cefnogaeth 1:1 ar hyn o bryd trwy'r Gwasanaethau Hygyrchedd.

Yn yr archwiliad a wnaed gwiriwyd bod y gefnogaeth a roddir i'r myfyrwyr hyn yn cyflawni'r 37 safon sy'n rhan o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Lwfans Myfyrwyr Anabl. Eleni, roedd lefel cydymffurfiaeth y Brifysgol yn 99%; sy'n gynnydd sylweddol ers yr archwiliad cyntaf a sgoriodd 88%.

Meddai John Harrington, Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd a fu'n gyfrifol am drefn yr archwiliad - *"Gwaith caled ac ymroddiad staff ategol y cymorth an-feddygol a'r gwasanaethau hygyrchedd sy'n gyfrifol am y sgôr rhagorol hwn, trwy sicrhau bod ansawdd y systemau a sefydlwyd i fonitro'r gefnogaeth a roddir bob amser o'r safon uchaf."*

Gall myfyrwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn cael cefnogaeth 1:1 ar gyfer anabledd, gwahaniaeth dysgu penodol neu gyflwr iechyd hirdymor gysylltu ag un o'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd er mwyn adolygu'r gefnogaeth sydd ei hangen, trwy ffonio 01970 621761 neu e-bostio: accessibility@aber.ac.uk

# Y diweddaraf am Ganolfan a Labordai Milfeddygol1 (VetHub1)

CANOLFAN A LABORDAI MILFEDDYGOL[1]



Penodwyd Jackie Sayce, a fu'n Rheolwr yr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg rhwng 2012 a 2018, yn Gydgysylltydd Prosiect a Swyddog Datblygu Busnes Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 ym mis Ionawr 2019. Bu Newyddion ABER yn siarad â Jackie am Ganolfan a Labordai Milfeddygol 1 a'i swydd newydd:

**Soniwch ychydig wrthym am eich swydd newydd**
Rwy'n aelod o dîm sy'n gyfrifol am gyflenwi Clwstwr Arloesi newydd y Brifysgol, sef Canolfan a Labordai Milfeddygol 1, yn Adeilad Carwyn James. Rwy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen adnewyddu £4.2m i drawsnewid y lle yn labordai a swyddfeydd o'r radd flaenaf. Rwy'n cydweithio â'r Dirprwy Is-Ganghellor Yr Athro Chris Thomas (sy'n arwain y prosiect) yn ogystal â chyd-weithwyr o IBERS a'r Adran Ystadau.

**Allwch chi egluro beth yw Canolfan a Labordai Milfeddygol1?**
Bydd Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yn darparu labordai diogel fydd yn hyrwyddo a diogelu iechyd anifeiliaid a phobl. Un o amcanion Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yw cydweithio â diwydiant i gynhyrchu profion a brechlynnau newydd i leihau'r colledion yn y diwydiant da byw; trwy hynny fe wneir cyfraniad gwerthfawr i'r economi wledig yng Nghymru a thu hwnt. Bydd yr ymchwilwyr yn edrych yn benodol ar ddatblygu atebion i glefydau a gludir drwy anifeiliaid y gellid eu trosglwyddo i bobl.

**Sut mae Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yn cael eu hariannu?**
Mae'r Brifysgol wedi darparu peth o'r cyllid, mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (drwy Lywodraeth Cymru) wedi darparu £3m, a dyfarnwyd £650k gan y Ganolfan Ragoriaeth Arloesi mewn Da Byw.

**Pa bryd fydd y lle'n agor?**
Dechreuodd gwaith adeiladu y tu mewn a'r tu allan i Adeilad Carwyn James ym mis Ebrill a'r nod yw ei gwblhau erbyn mis Medi/Hydref 2019.

**Pwy fydd yn gallu defnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan a Labordai Milfeddygol 1?**
Bydd y cyfleusterau ar gael i ymchwilwyr academaidd a busnesau cysylltiedig.

**Sut bydd Canolfan a Labordai Milfeddygol1 o fudd i'r economi leol a'r byd ehangach?**
Rhan o'r cynllun ar gyfer Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yw ehangu'r economi wledig a chreu swyddi yng nghanolbarth Cymru. Yn ystod y cyfnod adeiladu, defnyddiwyd cyflenwyr lleol lle'r oedd hynny'n bosibl, ac unwaith bydd y cyfleusterau yn weithredol, bydd staff yn cael eu cyflogi i weithio yno a chwmnïoedd yn ei ddefnyddio. Trwy gydweithio â milfeddygfeydd a busnesau, bydd cyfle unigryw i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau arloesol newydd a thrawsnewid economi'r ardal.


## THE CONVERSATION

Bydd Ruth Dawson, golygydd *The Conversation* yng Nghymru yn dod i Brifysgol Aberystwyth **ddydd Mercher 3 Gorffennaf** i gynnal gweithdy briffio ac ysgrifennu dwy awr i academyddion ac ymchwilwyr. Bydd y gweithdy, a gynhelir rhwng 10yb a 12yp yn Ystafell 1.16 Adeilad Edward Llwyd, yn rhoi cyngor ar ba storïau sy'n gweithio a sut mae cynnig syniadau. I archebu eich lle ewch i: www.aber.ac.uk/cy/staff/conversation

Ers i Brifysgol Aberystwyth ymuno â *The Conversation* ym mis Awst 2017, mae erthyglau gan staff Aberystwyth wedi cael eu darllen dros 800,000 o weithiau.

Mae *The Conversation* yn arddangos rhywfaint o'r ymchwil gorau a gynhelir mewn prifysgolion heddiw. Mae'n cynnig cyfrwng i academyddion ymgysylltu, hysbysu a chynnig mewnwelediad academaidd yn uniongyrchol i'r cyhoedd, ar amrywiaeth eang o bynciau. Gallai hyn fod drwy ymateb i faterion cyfoes, newyddion sy'n torri, egluro ymchwil, neu ddatblygu erthyglau nodwedd.

Yn aml caiff cyfraniadau i *The Conversation* eu hailgyhoeddi gan y cyfryngau ehangach (e.e. *The i, The Times, Daily Mail* a'r *Western Mail*) a chyrraedd cynulleidfa ryngwladol. Mae erthyglau gan academyddion o Brifysgol Aberystwyth wedi cael eu darllen mewn mwy na 200 o wledydd. Caiff cynnwys ei ailgyhoeddi hefyd ar weddalennau'r Brifysgol ei hun a'i rannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol, felly mae'n ffordd effeithiol o godi proffil ein hymchwil.




I gael rhagor o wybodaeth ewch i theconversation.com/uk neu e-bostiwch cyfathrebu@aber.ac.uk

# Arwain Elgar yn Wcráin



## Fis Chwefror eleni, ymddangosodd Dr David Russell Hulme, Cyfarwyddwr Cerdd y Brifysgol, fel arweinydd gwadd gydag un o gerddorfeydd symffonig blaenaf Wcráin yn Zaporozhye, Wcráin. Gofynnwyd iddo rannu ei brofiad:

"Sut ar y ddaear gefaist ti'r cyfle i arwain Elgar yn Wcráin?" – mae llawer wedi holi'r cwestiwn hwn. Yn wreiddiol, gwahoddiad ydoedd i arwain Cerddorfa Symffonig Zaporozhye ar gyfer darlledu ffilm fud glasurol Hitchcock, *Blackmail*, gyda sgôr wych Neil Brand, un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth – gwaith eithaf arbenigol. Pan aeth y syniad hwn i'r gwellt, cefais wahoddiad yn hytrach i arwain rhaglen o gerddoriaeth Prydain. Felly, ar noson iasol ym mis Chwefror, roeddwn yn sefyll ar darmac rhewllyd maes awyr bychan Zaporozhye â phedair sgôr yn fy mag: *Enigma Variations* wych Elgar, *First Norfolk Rhapsody* Vaughan Williams, dau symudiad o sgôr *Murder on the Orient Express* Richard Rodney Bennett a – ffefryn personol – cerdd symffonig liwgar Hamilton Harty, *With the Wild Geese*.

Roedd yr ymarfer cyntaf am 10 o'r gloch fore trannoeth (o gofio'r gwahaniaeth amser, 8 o'r gloch oedd hi i mi o hyd). Sut byddai pethau'n mynd? Doeddwn i ddim yn siarad Rwsieg nac Wcreineg; lleiafrif yn unig o'r gerddorfa a fedrai Saesneg – a doedd dim cyfieithydd. Dechreuwyd gyda gwaith Harty, a fedyddiwyd ganddynt yn "Goose Music"! Daethpwyd o hyd i ffordd o weithio'n fuan iawn. Roedd Elena Ignatenko, arweinydd gwych y gerddorfa, yn siarad Saesneg ac yn cyfieithu yma ac acw. Roedd llythrennau'r ymarfer yn rhwydd – D ar gyfer Dracula, M ar gyfer Mamma Mia! – ac, wrth gwrs, roedd pawb yn deall Eidaleg y byd cerdd.

Cafwyd tri thoriad yn ystod yr ymarferion pedair awr. Roeddent yn sesiynau hwyliog, a the a chacennau wedi'u trefnu o fewn grwpiau bychain. Roedd y chwaraewyr yn amlwg yn ymlacio ac yn hapus gyda'i gilydd. Aethpwyd i drafferth mawr ar benblwyddi – ffanffer llawn hwyl gan yr adran bres a chacennau ac anrhegion arbennig. Cefais groeso o'r dechrau un – siocledi ar fy stand miwsig ac wedi'u gwthio i bocedi fy nghôt, cacen i fynd adref ac – yn goron ar y cyfan – brwdfrydedd a chyfeillgarwch gan bawb.

Cafwyd cyfle i fanylu ar y gerddoriaeth yn ystod chwe diwrnod o ymarferion – moethusbeth i gerddorfeydd proffesiynol. Roedd y chwaraewyr wrth eu bodd â'r gweithiau, bob un ohonynt fwy neu lai'n newydd iddynt. *Enigma* oedd yr unig waith a chwaraewyd gan y gerddorfa o'r blaen – ugain mlynedd yn ôl. Mae hyfforddiant rhagorol y Cyfarwyddwr Cerdd, Vyashelav Redya, yn sicrhau ymateb gwych gan y gerddorfa ac roedd y cyngerdd ar 1 Chwefror yn llwyddiant mawr.

Ar adeg pan fo arian yn brin, efallai nad yw Zaporozhye yn gwario ffortiwn ar drwsio tyllau yn ei phalmentydd; welwch chi ddim ceir crand yn drwch ar ei ffyrdd, ond mae'n cynnal dwy gerddorfa broffesiynol – y Symffonig a Cherddorfa Theatr Magara – a darpariaeth gerdd iach ar gyfer ei hieuenctid. Mae ei blaenoriaethau'n gywir!

Cwestiwn arall sy'n cael ei ofyn imi yw, "A gefaist ti amser da?" Do, cefais yr amser gorau.

**David Russell Hulme**



# Yn ogystal â'r swydd bob dydd




Julie ar ei cheffyl Arabaidd pur, Rafiq

Mae Dr Julie Abbott (McKeown gynt) yn ddarlithydd marchnata yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Mae ganddi radd PhD mewn Entrepreneuriaeth Wledig ac Ymddygiad Defnyddwyr, ac enillodd statws Gwerthwr Siartredig gyda'r Sefydliad Siartredig Marchnata yn 2000. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys entrepreneuriaid gwledig Cymreig, yn arbennig busnesau marchogaeth.

Yn ogystal â'i swydd bob dydd, mae Julie'n mwynhau marchogaeth dycnwch, ac mae hi a'i cheffyl yn rhan o dîm Dycnwch Cymru. Siaradodd *Newyddion* ABER â Julie i gael rhagor o wybodaeth am beth mae hi'n ei fwynhau am farchogaeth pellter hir reoledig fel hyn:

**Pryd wnaethoch chi ddechrau marchogaeth ceffylau?**
Rwyf bob amser wedi caru ceffylau, ond dim ond ar ôl priodi am y tro cyntaf yn 20 oed y dechreuais farchogaeth yn rheolaidd. Cefais fy ngheffyl cyntaf ym 1985, sef ebol Arabaidd wythnos oed. Rwyf bob amser wedi cael ceffylau Arabaidd ers hynny ac mae fy ngheffyl presennol – TM Valentino neu Rafiq i'w ffrindiau – yn geffyl Arabaidd 16hh pur gydag agwedd! Rwy'n berchen ar y ceffyl ers dwy flynedd bellach ac rydym wedi dod i ymddiried yn ein gilydd erbyn hyn. Teimlaf yn ffodus ac wedi fy mendithio i gael ceffyl mor hyfryd a thalentog.

**Eglurwch beth yw marchogaeth dycnwch?**
Dycnwch yw marchogaeth dros bob math o dirwedd am bellteroedd o rhwng 32K a 160K y dydd o fewn cyflymder ac amser penodol.

Mae reid raddedig yn farchogaeth technegol lle mae'n rhaid i'r ceffyl a'r marchogwr deithio ar gyflymder o rhwng 8kph a 18kph gan ddibynnu ar y lefel, ac mae'n rhaid i'r ceffyl basio archwiliad iachusrwydd a chyfradd curiad y galon ar ddechrau a diwedd y reid. Caiff cyfradd curiad calon a chyflymder y ceffyl ei ystyried er mwyn penderfynu ar eich gradd – o radd 1 (uchaf) i radd 4 ac yna cwblhau. Caiff y ceffylau eu diarddel os ydynt yn mynd yn rhy gyflym neu'n rhy araf, os ydynt yn simsan neu os yw cyfradd curiad eu calon yn rhy uchel 30 munud ar ôl diwedd y reid.

Gyda reidiau ras, sydd dros bellteroedd o 80K ac uwch, nid oes uchafswm cyflymder a'r enillydd yw'r marchogwr cyntaf i groesi'r llinell derfyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gyfradd curiad calon ceffyl yr enillydd fod o dan 65bpm ar ôl y reid, ac mae'n rhaid i'r ceffyl fod yn iach.

**Beth ydych chi'n ei hoffi gymaint am farchogaeth dycnwch?**
Mae'n waith tîm rhyngoch chi a'ch ceffyl a'ch criw – mae eich criw yn hanfodol oherwydd eu bod yn cwrdd â chi ar y ffordd ac yn rhoi bwyd a diod i chi a'ch ceffyl ac yn rhoi 'slosh' i'r ceffyl (tywallt dŵr drosto i'w hoeri). Pan fyddwch yn ôl yn y lleoliad maent yn gweithio ar y ceffyl i gael cyfradd curiad y galon i lawr cyn yr archwiliad ar ôl y reid.

Rwyf hefyd wrth fy modd yn cael bod allan am oriau ar fy ngheffyl yn trotian a hanner carlamu mewn pob math o dywydd ac ar bob math o dirwedd. Pe bai gennyf amser byddwn yn mwynhau'r olygfa hefyd! Mae hefyd yn un o'r chwaraeon marchogaeth mwyaf cyfeillgar yr wyf wedi dod ar ei draws. Mae pawb yn helpu ac yn annog ei gilydd.

**Beth yw'r prif heriau o ran marchogaeth dycnwch?**
Lles y ceffyl yw'r brif ystyriaeth. Felly'r brif her yw gwneud yn siŵr eu bod yn gorffen y reid yn iach a hapus. Wedi hynny, yr her yw cadw cyfradd curiad y galon i lawr a'r cyflymder i fyny! Nid yw fy ngheffyl yn hapus iawn i gael ei basio ar gyflymder gan eraill felly roedd hynny'n her fawr i mi ar lefel dechreuwr y llynedd. Ond, rydym nawr ar lefel agored felly bydd rhaid iddo wneud yn siŵr ei fod yn aros ar y blaen!



Tîm Dycnwch Cymru o flaen Castell Brodie yn Inverness yn y gystadleuaeth i wledydd rhyngwladol cartref, Medi 2018

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**
Gwnaeth fy ngheffyl gwblhau 10 o reidiau 40K y llynedd ar lefel dechreuwr, gan roi naw gradd 1 ac un gradd 2 i mi a olygodd fy mod yn ennill Pencampwriaeth Prydeinig Dycnwch i Ddechreuwyr, Pencampwriaeth Cymru a nifer o bencampwriaethau eraill, a oedd, wrth gwrs, yn uchafbwyntiau.

Hefyd, bod yn rhan o dîm Cymru ar gyfer cystadleuaeth i'r gwledydd Rhyngwladol cartref yn Inverness a dod ag Aur adref i'r tîm. Roedd yr awyrgylch yn arbennig, ac roedd bod yn rhan o'r tîm yn wych. Roedd pawb yn cyd-dynnu'n dda iawn ac roedd fy mhartner yn rhan o'r criw oedd yn fy helpu i a'i ferch, a oedd hefyd ar y tîm fel cystadleuydd iau, a chafodd hi wobr arian.

Rydyn ni gyd ar y tîm ar gyfer y gystadleuaeth hon eleni (mae fy mhartner nawr yn cymryd rhan hefyd) a gynhelir yn Ngŵyl Dycnwch Red Dragon yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Hydref. Mae tîm Cymru'n benderfynol o ennill yn eu cynefin eu hunain felly rydym wrthi'n hyfforddi'n barod!

**Pa un eitem ydych chi bob amser yn ei chario ar reid ddycnwch?**
Map! Er bod y llwybrau wedi'u marcio, mae'n rhaid cael map. Mae'r rhan fwyaf o farchogwyr hefyd yn cario pecyn cymorth cyntaf, caib i garnau'r ceffyl a ffôn. Mae gen i gyfrwy a ffrwyn arbennig ar gyfer reidiau dycnwch ond gallwch reidio yn unrhyw beth os yw'n addas i'r ceffyl a'r marchogwr.

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sydd â diddordeb mewn dechrau marchogaeth llwybrau neu farchogaeth dycnwch?**
Ewch amdani! Mae'n agored i farchogwyr o bob oed a phob brîd o geffyl. Ewch ar wefan Endurance GB i weld sut mae dechrau arni. Ymunwch â'ch grŵp rhanbarthol a pheidiwch â bod ofn gofyn am gymorth. Rydyn ni gyd yn gyfeillgar iawn a chofiwch mai dechreuwyr ydyn ni hefyd felly byddwn yn fwy na pharod i helpu. Mae'n ffordd dda o gael perthynas dda â'ch ceffyl. Does dim rhaid i chi gael ceffyl Arabaidd i gymryd rhan mewn reidiau dycnwch – yn arbennig ar y lefelau is. Ymunwch â'r cynllun trio-cyn-prynu i weld os ydych yn mwynhau cyn ymuno ag Endurance GB.




*Julie ar Rafiq (chwith) ac Edith, merch ei phartner ar gyn-geffyl rasio a fenthycwyd, yn marchogaeth dros Gymru yn y gystadleuaeth i wledydd rhyngwladol cartref, Medi 2018*



# Fy ngwaith ymchwil

KESS 2
Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships

Mae Angelos Photiades yn fyfyriwr ym mlwyddyn gyntaf ei PhD yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Daw Angelos o Athen yn wreiddiol, a chwblhaodd radd BSc ym Mhrifysgol y Môr Aegeaidd (Groeg) gan astudio Gwyddor Bwyd a Maeth. Derbyniodd ysgoloriaeth i gwblhau MSc mewn Ansawdd Bwyd a Chemeg Cynnyrch Naturiol yn Athrofa Agronomaidd Môr y Canoldir yn Chania (Groeg). Daeth i Brifysgol Aberystwyth i ddechrau astudio ar gyfer PhD yn 2018.

Bu Newyddion ABER yn sgwrsio gydag Angelos am ei waith ymchwil:

**Disgrifiwch eich gwaith ymchwil yn gryno**
Mae fy noethuriaeth yn ymwneud â gweithio ar brosesu drwy fioburo macroalgâu problematig ar gyfer cynhyrchu cynnyrch gwerth ychwanegol uchel. Yn syml, mae'n ymwneud â throi biomas algâu yn gynnyrch defnyddiol.

Mae'r cymhellion y tu ôl i'r prosiect hwn yn cuddio yn y gair 'problematig'. Mae newid hinsawdd a gweithgareddau anthropogenig yn cael effaith gynyddol ar sefydlogrwydd yr ecosystem ac yn dylanwadu'n fawr ar yr amgylchedd. Mae gordyfiant algâu yn ffenomen fyd-eang sy'n effeithio ar ecoleg, twristiaeth a'r economi.

Gwelwyd y gordyfiant algâu ('llanwau glas') yn Nyfrffordd Aberdaugleddau yn sir Benfro, lle mae canolfan fy nghwmni partner, GreenSeas Resources. Trwy gydweithio â nhw, rwy'n ymchwilio i ddefnydd posib o facroalgâu, o biodanwydd a gwrteithiau, i gyfansoddion maethol-fferyllol a fferyllol, gan hyrwyddo economi gylchol ac arferion ecolegol hyfyw.

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol i chi**
Rwy'n treulio sawl awr o'r diwrnod yn IBERS (Campws Gogerddan). Gan ddibynnu ar y cyfnod, efallai y byddaf yn y labordy yn gweithio ar samplau gwymon, neu yn y swyddfa yn dadansoddi data, yn ysgrifennu ac yn darllen testunau sydd eisoes ar gael.

Oherwydd ehangder fy mhrosiect, o ran y ffaith fod sawl defnydd posib i wymon, mae gennyf rywbeth diddorol i'w ddarllen o hyd a gall hynny fod yn her, weithiau. Rwy'n gweithio ym maes cynhyrchu bionwyon ar hyn o bryd a'r defnydd o wymon fel gwrtaith.

**Beth sy'n rhoi'r mwyaf o foddhad i chi?**
Mae gwaith ymchwil, trwy ddiffiniad, yn weithgarwch sy'n talu ar ei ganfed. Rydych yn llunio damcaniaeth neu syniad, ac os ydych yn ddigon lwcus byddwch yn ei wireddu erbyn diwedd y prosiect. Os yw'r syniad yn un da, mae'n bosib y byddai modd



ei ddefnyddio'n fasnachol a throi'r syniad yn arian. Os yw'n syniad arbennig o dda, gallai eich gwaith ymchwil arwain y ffordd i eraill ei dilyn; gallai ddatrys problem a darparu tystiolaeth ar gyfer gwella'r dyfodol.

A fyddaf o reidrwydd yn cyflawni hyn i gyd? Na. Ond mae'r posibilrwydd o lwyddo yn wych er mwyn annog dyn yn ei flaen. Twf personol, y cyfle i greu gwybodaeth a cherdded llwybr nad oes llawer o bobl wedi cerdded arno o'r blaen; dyna'r wobr i wyddonydd.

Mae tri chanlyniad yn nodweddu'r prosiect hwn – rydym yn gwneud gwaith ymchwil ac yn wynebu problem amgylcheddol ac yn cynhyrchu cynnyrch gwymon. Mae'n cyfrannu at deimlad o wneud rhywbeth pwysig, mawr ei effaith, yn enwedig ar adeg pan fo'r blaned yn gweld newidiadau eithafol.

**Beth yw'r her fwyaf?**
Rwy'n siŵr y bydd pob myfyriwr PhD yn cytuno fod PhD yn llwybr unig. Rydych yn eich herio'ch hun yn gyson, yn ymarfer eich sgiliau trefnu'ch hun, yn cydbwyso'ch gwaith ymchwil â'ch bywyd bob dydd, yn canfod ffyrdd o ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig. Mae'n rhaid i bob ymchwilydd fynd drwy'r broses hon. Gohirio cyn gwneud rhywbeth ac amau'ch hun yw eich prif elynion, ond gobeithio y gallwch oresgyn y rhwystrau hyn drwy gadw golwg ar y nod a chadw i fwrw ymlaen.

# Fy ngwaith ymchwil

Cwblhaodd Rachel Lilley radd ryngddisgyblaethol mewn gwyddorau cymdeithasol ym Mhrifysgol Sunderland a chwrs TAR ym Mhrifysgol Casnewydd, cyn dod i Brifysgol Aberystwyth i gwblhau MPhil. Mae hi bellach yn ymgeisydd PhD yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, ac yn cael ei hariannu drwy ysgoloriaeth nodedig AberDoc.

Bu Rachel hefyd yn gweithio fel ymgyrchydd, rheolwr prosiect a chyfarwyddwr am 30 mlynedd ym maes newid cymdeithasol ac amgylcheddol.

Bu Newyddion ABER yn sgwrsio gyda Rachel am ei gwaith ymchwil sy'n ystyried a yw ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu cynorthwyo penderfyniadau polisi effeithiol gan lunwyr polisi ac arweinwyr.



**Disgrifiwch eich gwaith ymchwil yn gryno**
Mae fy ngwaith ymchwil yn ymwneud â helpu pobl mewn llywodraeth a'r sector cyhoeddus i wella wrth wneud penderfyniadau a newid ymddygiad, er mwyn iddynt allu gwella wrth lunio polisïau a gweithio'n fwy effeithiol gyda phroblemau cymdeithasol ac amgylcheddol cymhleth megis newid hinsawdd.

Rwy'n defnyddio economeg ymddygiadol, niwrowyddoniaeth ac arferion myfyriol fel ymwybyddiaeth ofalgar i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant a gyflwynir yn y gweithle.

Rwy'n dadansoddi'r hyn y mae pobl yn ei wneud yn eu swyddi, sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau, yn ymwneud â'i gilydd ac yn asesu gwybodaeth, ac rwy'n datblygu'r ymyriadau drwy ymateb i fy nghanfyddiadau.

Mae gennyf ddiddordeb yn y ffordd y mae emosiynau'n gweithio fel rhan o'n gwybyddiaeth wrth effeithio ar wneud penderfyniadau, a sut mae'n gweithredu mewn timau a sefydliadau.

Gweithiais yn eang gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r sector cyhoeddus a chyrff anllywodraethol a chwmnïoedd preifat sy'n ymwneud â newid. Astudiais hefyd gymhwyso economeg ymddygiadol ar gyfer problemau fel arbed ynni domestig, gwarchod cynefinoedd mewn Parciau Cenedlaethol a gweithiais gydag IBERS wrth integreiddio newid ymddygiad mewn cyd-destun amaethyddol.

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol i chi**
Mae pob diwrnod ac wythnos yn amrywio. Heddiw, bûm wrthi'n ysgrifennu rhywfaint o'm gwaith ymchwil yn ogystal â pharatoi ar gyfer cyflwyno sesiwn hyfforddiant yfory i Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Ers rhai misoedd bûm yn cyfrannu i'r gwaith o ysgrifennu dogfen strategol a gyflwynais i Brif Weinidog Cymru. Mi wnaeth gymryd tipyn o amser gan fod saith ohonom yn ysgrifennu'n ddogfen ac roedd gan bob un ohonom farn wahanol.

Rwy'n helpu yn ogystal i redeg Canolfan Ymchwil Ryngddisgyblaethol Aberystwyth i Fewnwelediadau Ymddygiadol, felly rwy'n treulio rhan o fy amser yn datblygu syniadau ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid a rhoi'r ceisiadau at ei gilydd.

Rwy'n cael mwy o geisiadau i redeg gweithdai ac ysgrifennu erthyglau, a rhaid imi hefyd ganolbwyntio ar ysgrifennu rhagor o gyhoeddiadau ar gyfer erthyglau academaidd.

**Beth sy'n rhoi'r mwyaf o foddhad i chi?**
Mae fy ngwaith wedi dylanwadu ar ffyrdd o weithio mewn llywodraeth, wrth i rai uwch bobl amlwg newid eu dulliau rheoli. Newidiodd hefyd y ffordd o feddwl am arferion fel ymwybyddiaeth ofalgar, a sut gellir defnyddio'r arferion i beri newid go-iawn, ac nid helpu pobl i ymdawelu yn unig.

Rwy'n gallu bod yn eithaf angerddol am gyflwyno gwyddorau sy'n ymwneud â meddwl, emosiynau a chysylltu, gan mai dyma'r prif alluoedd sydd eu hangen arnom yn y byd er mwyn inni allu datrys rhai o'r heriau mwyaf dyrys megis newid hinsawdd. Nid yw trwch y boblogaeth yn deall digon, o ystyried eu bod yn gweithio gyda meddyliau (eu meddyliau eu hunain a meddyliau pobl eraill) bob dydd. Mae cael adborth cadarnhaol yn brofiad gwerth chweil.

Ar ôl fy rhaglen ddiwethaf, gofynnwyd imi gyflwyno fy ngwaith i'r Ysgrifennydd Parhaol yng Nghymru a'i bwrdd. Cefais foddhad enfawr o hyn - mae'n teimlo'n wych i gyflawni ymchwil sydd o ddiddordeb i bobl ac sy'n cael effaith.


**Beth yw'r her fwyaf?**
Mae'n dipyn o her i orfod gweithio cymaint ar fy mhen fy hun. Rwy'n gyfarwydd â gweithio mewn tîm ond, gyda'r gwaith ymchwil hwn, rwy'n gweithio'n bennaf ar fy mhen fy hun. Mae'n cymryd tipyn o egni i gymell a threfnu fy hun bob dydd heb drafod syniadau a chael hwb gan rywun arall.

Bu'n rhaid imi hefyd dynnu tipyn o sylw ataf fy hun a siarad â phobl brofiadol yn y maes am seicoleg a niwrowyddoniaeth ac er fy mod i newydd ddweud fy mod i'n gwbl angerddol am y pwnc, gall hefyd fod yn brofiad dirdynnol. Diolch i'r drefn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud fy mod i'n un dda am wneud cysyniadau cymhleth yn rhwydd i'w deall, ond weithiau byddaf yn meddwl fy mod i wedi colli fy nghynulleidfa!

# Cystadleuaeth Ffair Yrfaoedd

Marcella Rees-Gray, myfyriwr Astudiaethau Ffilm a Theledu yn y flwyddyn 1af, oedd enillydd y gystadleuaeth yn Ffair Yrfaoedd y Gwanwyn a drefnwyd gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol.

Enillodd Marcella daleb Canolfan y Celfyddydau gwerth £50, a noddwyd yn garedig gan Morgan Sindall, contractwyr adeiladu sy'n gweithio ar y prosiect o adnewyddu Neuadd breswyl Pantycelyn.



*Marcella (ar y dde) yn derbyn y wobr gan Joanne Hiatt, Ymgynghorydd Gyrfaoedd, Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth.*

# Gwobrau Cydnabyddiaeth Cynllun Graddedigion AberYmlaen

Llongyfarchiadau mawr i enillwyr teilwng Gwobrau Cydnabyddiaeth Cynllun Graddedigion AberYmlaen eleni a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019.

Yr enillwyr (a ddangosir yn y llun o'r chwith i'r dde) oedd Luke Searle (Swyddfa Gynllunio), Lucy Gray (Swyddfa Ryngwladol), Emily Clark (Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd), Daisy Cobbold (Swyddfa Ryngwladol), Ailia Murray (Ysgol Addysg), Luke Waller (Yr Adran Ffiseg). Derbyniodd pob un wobr o £250.

Diolch yn fawr i hyfforddeion AberYmlaen am eu gwaith caled a'u cyfraniadau yn ystod y lleoliad 4 wythnos, i'w goruchwylwyr am gynnig y lleoliadau ac am eu cefnogaeth a'u henwebiadau, ac i Balfour Beatty, contractwyr adeiladu Fferm Penglais, am noddi'r cynllun gwobrwyo hwn.




# Myfyrwraig Astudiaethau Celtaidd yn cyhoeddi llyfr

## Mae Sabrina Fackler, sy'n dod o Bavaria yn yr Almaen yn fyfyrwraig Astudiaethau Celtaidd yn ei hail flwyddyn. Er mai 20 oed yw hi, mae hi eisoes wedi cyhoeddi deg nofel yn Almaeneg ac wrthi'n golygu'r unfed ar ddeg.

Yn gynharach yn y flwyddyn, cafodd Sabrina arweiniad a chefnogaeth gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol, a derbyn arian tuag at gyhoeddi ei nofel gyntaf yn Saesneg, *'Avlia - Wicked Fire'*.

Bu Newyddion Aber yn sgwrsio â Sabrina am ei phrofiadau fel myfyrwraig yn Aberystwyth a'r cymorth mae hi wedi'i dderbyn:

**Beth wnaeth i ti benderfynu dod i Brifysgol Aberystwyth i astudio Astudiaethau Celtaidd?**
Roeddwn i'n gwybod fy mod i am ymweld â Chymru rywbryd, a phan sylweddolais y gallwn wireddu cynifer o freuddwydion – gweld Cymru, dysgu ieithoedd Celtaidd, teithio ac astudio dramor a dysgu mwy am fytholeg a hanes Cymru ac Iwerddon – mewn un cwrs gradd, roeddwn yn benderfynol o ddod yma. Mae Aberystwyth yn cynnig yr holl ieithoedd Celtaidd byw, a dyna, mae'n debyg, a werthodd y cwrs i mi. Ar ben hynny, mae'n dref ac ardal hyfryd.

**Beth yw'r pethau gorau am fod yn fyfyrwraig yn Aberystwyth?**
Yr ardal a'r llyfrgelloedd. Mae gallu dianc yn gymharol rwydd drwy fynd am dro hir ar hyd llwybr yr arfordir yn help mawr os oes gennych ormod ar eich plât ac wrth eich bodd â byd natur.

A'r llyfrgelloedd! Wel, ble mae dechrau? Yr holl lyfrau! Mae'n wych cael mynediad at yr holl wybodaeth yma.

**Ers pryd rwyt ti'n ysgrifennu ffuglen?**
Dechreuais gofnodi ambell beth pan oeddwn yn bedair ar ddeg ac rwyf wrthi ers hynny. Cyhoeddais fy llyfr cyntaf pan oeddwn yn un ar bymtheg.

**Pa gymorth gefaist ti gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol a beth oedd yn ei olygu?**
Cymerais ran mewn nifer o weithdai sgiliau dechrau busnes AberPreneur, sy'n cael eu trefnu a'u rhedeg gan Wasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth (*Gyrfaoedd Aber*), ar y cyd â rhaglen Syniadau Mawr Cymru Llywodraeth Cymru.




Roeddwn hefyd yn cael fy mentora gan gynghorydd busnes Syniadau Mawr Cymru sy'n treulio diwrnod yn y Brifysgol unwaith bob pythefnos gyda myfyrwyr entrepreneuraidd. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim. Derbyniais £1,000 drwy raglen Syniadau Mawr Cymru ar gyfer cyhoeddi fy llyfr cyntaf yn Saesneg.

Mae *Gyrfaoedd Aber* hefyd wedi bod o gymorth yn darparu cyngor ac arweiniad rheolaidd ynghylch gyrfaoedd.

# Diweddariad arolwg proses

Ym mis Ebrill fe'ch gwahoddwyd i rannu eich barn ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein prosesau fel ein bod yn treulio llai o amser ar weinyddiaeth a mwy ar dasgau sy'n ychwanegu gwerth at brofiad myfyrwyr, ymchwil, addysgu a darparu gwasanaethau proffesiynol.



Roedd yr ymateb yn wych - 350 o gyfraniadau. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran. Mae eich adborth yn hynod bwysig ac mae wedi ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o lle mae angen newidiadau.

Rydym wedi darllen y sylwadau'n ofalus a hoffwn roi cipolwg cynnar i chi o'r canfyddiadau cychwynnol. Mae'r canlyniadau hefyd wedi'u rhoi i Tim Davies, Cyfarwyddwr GG gan y bydd yn ei helpu i ddatblygu Strategaeth Ddigidol newydd.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, roedd y gyfradd ymateb ar gyfer rhai prosesau llawer yn uwch oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio'n eang iawn gan lawer o staff. Fodd bynnag, y tri uchaf o ran lefel y rhwystredigaeth yw:

- archebu teithio / yswiriant
- creu a diwygio gwybodaeth am fodiwlau
- cwblhau'r ECS

**Camau nesaf**

Gyda chefnogaeth y tîm Gweithredol, rydym wedi nodi uwch berchennog i bob proses, ac rwy'n gweithio gyda nhw i ddatblygu llinellau amser a chynlluniau gweithredu i wella'r prosesau hyn.

Diolch eto i bawb a roddodd o'u hamser i gwblhau'r arolwg. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am y datblygiadau er mwyn gweithredu'ch adborth.

**Nick Rogers**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

# Adnoddau Digidol Newydd

Mae dau draethawd ymchwil PhD a ysgrifennwyd gan alumni o Aberystwyth yn gynnar yn yr 20fed ganrif bellach ar gael ar lein am y tro cyntaf.

Mae'r Tîm Darganfod Adnoddau yn y Gwasanaethau Gwybodaeth wedi digideiddio'r gweithiau a threfnu eu bod ar gael drwy Borthol Ymchwil Aberystwyth (research.aber.ac.uk).

**Creigiau sy'n cynnwys manganîs ym Meirionnydd**

Yr adnodd cyntaf sydd newydd ei gyhoeddi ar lein yw *The petrography and petrology of the Cambrian and Ordovician manganese-bearing sediments of North Wales* gan Dr Austin William Woodland.

Daeth Woodland (1914–1990) i Aberystwyth gan ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Daeareg yn 1934 a PhD yn 1937. Treuliodd bedwar degawd yn gweithio i Arolwg Daearegol Prydain, gan ddod yn Gyfarwyddwr yn y pen draw tan ei ymddeoliad yn 1979. Fe'i hystyrir yn un o brif ddaearegwyr ei genhedlaeth.

Mae traethawd ymchwil Woodland ar y creigiau sy'n cynnwys manganîs ym Meirionnydd ac sydd bellach wedi'i ddigideiddio ac ar gael i bawb ar Borthol Ymchwil Aberystwyth yn parhau yn gyfeirnod safonol ar y pwnc.

pure.aber.ac.uk/portal/en/theses/the-petrography-and-petrology-of-the-cambrian-and-ordovician-manganesebearing-sediments-of-north-wales(b949d0a0-5f21-4ef4-8ee6-24174f3d36be).html

**Sylfaenydd a sefydlu mudiad Ysgol Werin Denmarc**

Yr ail adnodd sydd newydd ei ddigideiddio yw N.F.S. *Grundtvig and the Danish Folk High-School movement* gan Noëlle Ffrench Davies.

Enillodd Noëlle Ffrench Davies (1889-1983) o Roscommon, Iwerddon, radd yn y Clasuron ac Ieithoedd Modern o Goleg y Drindod Dulyn a diploma mewn addysg cyn i'w diddordeb yng nghenedlaetholdeb Wyddelig ac addysg flaengar ei harwain at ddarlithyddiaeth yng Ngholeg y Bobl Ryngwladol yn Helsignör yn Nenmarc. Yno, cyfarfu â David James Davies, a phriododd ag ef yn 1925, a chofrestrodd y ddau yn fyfyrwyr PhD yn Aberystwyth. Yn ystod eu hastudiaethau, roedd y ddau yn weithgar gyda Phlaid Genedlaethol Cymru (Plaid Cymru bellach).



Noëlle French Davies

Er i'w cynlluniau i sefydlu Ysgol Werin Uwchradd yn Nulyn ac yna yn Sir Feirionnydd gael eu llesteirio yn y diwedd, roedd y ddau yn arweinwyr pwysig yn Ysgolion Haf y Blaid gan adael gwaddol gyfoethog o waith ysgrifenedig ar y sefyllfa wleidyddol, economaidd a chymdeithasol yng Nghymru.

Canolbwyntiai traethodau ymchwil Noëlle Davies, sydd bellach yn agored i bawb ar Borthol Ymchwil Aberystwyth, ar hanes mudiad yr Ysgol Werin yn Nenmarc a'i sylfaenydd, yr Esgob Nicholas Grudtvig yr oedd ei athroniaeth yn cysylltu diwylliant cenedlaethol cryf â sefydlu systemau gwleidyddol cydweithredol gwaraidd.

pure.aber.ac.uk/portal/en/theses/n-f-s-grundtvig-and-the-danish-folk-highschool-movement(8d42174c-d97a-4cdb-a492-66d7dcee9fba).html

Colofn UMAber

# Etholiadau Swyddogion UMAber 2019



Am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym wedi torri'r record am y canran a bleidleisiodd yn Etholiadau Undeb y Myfyrwyr, wrth i 37% bleidleisio (2016: 19%). Mae'r ganran hon ymhlith y 3 uchaf yn y DU!




Llongyfarchiadau i'r holl ymgeiswyr yn Etholiadau Aber eleni – gweler adran Etholiadau gwefan UMAber am y manylion llawn a rhestr lawn o'r ymgeiswyr a etholwyd –

www.umaber.co.uk/llywioaber/etholiadau

Bydd y tîm newydd o Swyddogion amser llawn yn dechrau ar eu gwaith ar 1 Gorffennaf 2019:

- Llywydd: Dhanjeet Ramnatsing
- Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA: Tomos Ifan
- Swyddog Materion Academaidd: Chloe Wilkinson Silk
- Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr: Wojciech Salski
- Swyddog Lles: Lydia Chilvers

**Dim Esgusodion**
Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn credu bod gan bawb hawl i fyw, gweithio ac astudio mewn amgylchedd sy'n rhydd o ofn bwlio, aflonyddu a thrais.

Rydym wedi lansio ymgyrch *Dim Esgusodion* ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a phartneriaid lleol i roi grym i bobl i fod yn wyliedydd gweithgar a gweithredu yn erbyn bwlio, aflonyddu, troseddau casineb, ymosodiadau rhywiol ac unrhyw ymddygiad annerbyniol arall.

Yn aml, mae achosion o fwlio, aflonyddu a thrais oherwydd hunaniaeth unigolyn yn dechrau gydag agweddau, credoau a stereoteipiau negyddol at bobl eraill. Rydym o'r farn fod y rhagfarnau hyn yn aml yn amlygu eu hunain ar sawl ffurf, yn aml oherwydd rhagfarn hysbys neu ddiarwybod yn erbyn ystod o nodweddion personol megis hil, yn cynnwys lliw croen, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol neu rywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Os na chaiff y credoau hyn eu herio, gallant arwain at ymddygiad niweidiol a rhagfarnllyd ac efallai at fwy o gamwahaniaethu, casineb a thrais.

*Adrodd a Chael Cymorth:* Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn profi ymddygiad sy'n peri problem, gallwch roi gwybod yn uniongyrchol i'r Brifysgol amdano. Mae'r Brifysgol mewn partneriaeth â'r Undeb wrthi'n datblygu system adrodd ar-lein a fydd yn galluogi myfyrwyr i adrodd rhywbeth yn ddienw, fel trydydd parti neu i ddatgelu eich hun a chael cymorth gan gynghorydd. Rydym yn bwriadu lansio'r system hon yn ystod yr wythnosau nesaf.

*Gwnewch ein Haddewid:* Fel rhan o'n hymgyrch, rydym yn gofyn i fyfyrwyr, staff a grwpiau o fyfyrwyr ddangos eu cefnogaeth dros fynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a thrais.

Ond mae mwy iddo na chytuno i ysgrifennu addewid, felly mynnwch olwg ar dudalennau'r ymgyrch yn yr adran Llywio Aber ar ein gwefan er mwyn cael rhagor o wybodaeth: www.umaber.co.uk/llywioaber/ymgyrchoedd/dimesgusodion

*Ein Haddewid i Chi:* Mae UMAber yn addo gweithio gyda phob myfyriwr ac aelod staff i roi terfyn ar fwlio, aflonyddu, ymosod a thrais er mwyn creu diwylliant dim goddefgarwch lle mae myfyrwyr yn gallu teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain heb unrhyw ragfarn.

**Rhywbeth arall i ddathlu...**
Coronwyd Tîm Swyddogion UMAber yn Dîm Swyddogion Undeb Myfyrwyr y Flwyddyn UCMC! Mae hyn yn dyst i'w gwaith caled a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf! Da iawn wir – rydym yn falch iawn ohonoch chi!

**Trish McGrath** - Prif Swyddog Gweithredol UMAber

## Penodi Ymddiriedolwr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru



Mae Ruth Fowler, Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol wedi cael ei phenodi'n ymddiriedolwr ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn rhwydwaith o unigolion sy'n ymroddedig i wneud Cymru yn lle mwy diogel a theg i fenywod a merched.

Mae eu gwaith yn cael ei ategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod.

Cafodd Ruth ei phenodi yn ei chyfarfod bwrdd cyntaf ar 8 Mai yng Nghaerdydd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymddiriedolwyr ewch i:
www.wenwales.org.uk/who-we-are/trustees

# Penodiadau

Croeso cynnes i gydweithwyr a ymunodd â'r Brifysgol yn y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

## ADNODDAU DYNOL



Penodwyd **Mr Nick Rogers** yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol. Ymunodd Nick â Phrifysgol Aberystwyth yn Ionawr 2018 fel Cyfarwyddwr Strategaeth Newid. Cyn dod yma, bu'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol ym Mhrifysgol James Cook, Awstralia (2014 -18) – swydd y bu hefyd yn ei gwneud ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain; Prifysgol Kingston Llundain, a Phrifysgol Napier Caeredin. Mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). Yn rhinwedd ei swydd newydd bydd Nick yn rheoli swyddogaethau AD a Chyflogres y Brifysgol yn ogystal â pharhau i arwain ar weithgareddau newid ar draws y sefydliad.

## SEFYDLIAD Y GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG



Mae'r **Athro Iain Donnison** wedi cael ei benodi'n Bennaeth Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Yn athro gwyddorau planhigion ac amaeth, bydd Iain yn arwain ar bob agwedd ar waith ymchwil ac addysgu IBERS. Ar hyn o bryd, mae'n arwain Rhaglen Strategol Graidd y BBSRC mewn Cnydau Gwydn ac mae'n Gyfarwyddwr Canolfan Biofireinio BEACON Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sydd â phartneriaid mewn pedair prifysgol yng Nghymru gan gynnwys Aberystwyth. Fe symudodd Iain i Geredigion yn wreiddiol i weithio yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas ac Amgylcheddol (IGER) y BBSRC ym 1994 cyn ymuno gyda Phrifysgol Aberystwyth pan ddaeth IGER yn rhan o'r IBERS newydd yn 2008.



Mae **Adam Gouraguine** yn gydymaith ymchwil ôl-ddoethurol newydd yn IBERS. Bydd yn gweithio ar brosiect Newton a gyllidir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) sy'n archwilio i strwythur, cysylltedd a gwytnwch mewn ecosystem môr-wiail a ecsbloetir (algâu brown) yn Ne America. Cwblhaodd radd PhD ym Mhrifysgol Essex ble'r astudiodd y berthynas rhwng pysgod a rhywogaethau sy'n ffurfio cynefinoedd yn y trofannau a'r moroedd tymherus.

## ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG



Bydd yr **Athro Emyr Lewis** yn ymgymryd â rôl Pennaeth y Gyfraith a Throseddeg ym mis Medi 2019. Yn gyn-fyfyriwr o'r Adran, mae Emyr yn cael ei gyfrif yn un o gyfreithwyr cyhoeddus mwyaf blaenllaw Cymru. Mae'n gyfreithiwr sy'n ymarfer ers 1984, ac ar hyn o bryd mae'n bartner yn Blake Morgan LLP yng Nghaerdydd lle mae'n arbenigo mewn cyfraith fasnachol a chyhoeddus. Ymysg y rhai y mae wedi cynghori mae Llywodraeth Cymru ac adrannau Llywodraeth San Steffan. Tra'n parhau i weithio fel cyfreithiwr, bu'n dal swydd ran-amser Uwch Gymrawd yng Nghyfraith Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd (2011-2014) lle trawsnewidiodd addysgu'r gyfraith ar ddatganoli. Mae Emyr hefyd yn brifardd ac yn weithgar ym mywyd llenyddol a diwylliannol Cymru.




## YSGOL FUSNES ABERYSTWYTH

Bydd yr **Athro Andrew Thomas** yn ymuno â ni fel Pennaeth Ysgol Fusnes Aberystwyth ym mis Gorffennaf o'i swydd fel Deon Cysylltiol Ymchwil ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (2015-19). Yn ei rôl bresennol fel Deon Cysylltiol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae Andrew wedi bod yn arwain proses FfRhY 2021 ar draws y sefydliad ac mae ganddo hanes rhagorol fel ymchwilydd a phrofiad helaeth o greu cyrsiau PGT (Dysgwyd) a PGR (Ymchwil) sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Yn gyn Bennaeth yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol De Cymru (2013-2015), mae Andrew hefyd wedi bod yn Ddeon y Gyfadran Peirianneg a'r Amgylchedd Adeiledig ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / Coleg Sir Gâr (2010-12); Deon Cysylltiol ar gyfer Ymchwil a Menter yn Ysgol Fusnes Casnewydd (2008-2010) a Darlithydd mewn Systemau Rheoli Gweithrediadau a Chadwyn Gyflenwi ym Mhrifysgol Caerdydd (2002-2008).

## YR ADRAN IEITHOEDD MODERN



Mae **Dr Marieke Mueller** yn ymuno â'r Adran Ieithoedd Modern fel Darlithydd Ffrangeg. Cwblhaodd radd DPhil o Brifysgol Rhydychen yn 2016 ac yna dysgodd yng Ngholeg y Brenin, Llundain. Mae ei hymchwil yn ymwneud â llenyddiaeth ac athroniaeth Ffrengig a Ffrangeg modern. Mae ei phrosiect ymchwil diweddaraf yn archwilio i'r cysylltiadau rhwng naratif a thrais.



## YR ADRAN SEICOLEG

Ymunodd **Dr Christian Moller** â'r Adran Seicoleg fel ymchwilydd ôl-ddoethurol. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar brosiect a gyllidir gan EPSRC sy'n ceisio hwyluso diwylliannau cyfundrefnol cynhwysol i fenywod a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio mewn adrannau prifysgol STEM. Yn ddiweddar mae wedi cwblhau gradd PhD o Brifysgol Huddersfield ble'r oedd yn ymchwilio i sgyrsiau a dynameg pŵer mewn lleoliadau elusennau bwyd.



# Paul James (1958 - 2019)

## Gyda thristwch mawr y syfrdanwyd y gymuned gyfan fis Ebrill pan glywsom am farwolaeth annhymig ein cyd-weithiwr Paul James, yn dilyn damwain feic drasig.

Roedd Paul wedi gweithio fel Swyddog Diogelwch ar gampws Penglais a Gogerddan am dros 23 blynedd. Roedd yn aelod staff ymroddedig, uchel ei barch a gwerthfawr.

Roedd yn adnabyddus hefyd yn y gymuned ehangach am ei waith fel cynghorydd etholedig Plaid Cymru ar gyfer Llanbadarn Fawr ar Gyngor Sir Ceredigion ac fel aelod o Gyngor Cymuned Llanbadarn Fawr. Cyn ymuno â'r Brifysgol, roedd Paul yn aelod o Fyddin Prydain a Lleng Dramor Ffrainc.

Ac yntau'n godwr arian diflino, bu farw Paul wrth hyfforddi ar gyfer taith feicio 140 milltir o ysbyty Bronglais i ysbyty Treforys. Cwblhaodd ffrindiau Paul y daith ('Paul's Heart Ride') ar 25-26 Mai, a chodwyd dros £14,000 ar gyfer ward y galon yn y ddwy ysbyty lle cafodd Paul driniaeth ddwy flynedd yn ôl.

Gwelir eisiau Paul yn fawr gan ei gyd-weithwyr ac aelodau'r gymuned leol. Lluniwyd teyrngedau byr iddo gan nifer o gyd-weithwyr:

*Deuthum i adnabod Paul gyntaf pan oeddwn yn gweithio i Elin Jones AC yn swyddfa Plaid Cymru Aberystwyth, cyn imi ymuno â'r Brifysgol. Roedd Paul yn fawr ac yn addfwyn ac yn ddyn teulu balch. Roedd yn hyderus wrth leisio ei farn a herio pobl mewn awdurdod, ac yn ymgyrchydd diflino a thaer yn y gymuned. Roedd Paul yn unigryw, a gwelir ei eisiau yn fawr.*

**Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol**

*Syfrdanwyd y Brifysgol, y gymuned leol, a thu hwnt, wrth glywed y newyddion am farwolaeth Paul fis diwethaf, ac mae hyn yn dyst i'r parch a'r edmygedd tuag ato.*

*Roedd Paul yn aelod ffyddlon, gweithgar a medrus iawn o'n tîm Diogelwch a oedd bob amser yn ceisio diogelu, a gwella profiad ein cwsmeriaid, boed yn fyfyrwyr, staff neu ymwelwyr.*

*Bydd ein meddyliau yn parhau gyda gwraig Paul, sef Jane a'r teulu y byddai'n siarad amdanynt â chymaint o gariad a balchder.*

**Tom Bates, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau – Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd**

*Roeddwn ar y shifft olaf gyda Paul. Hoffai fy nghyd-weithwyr a minnau ddweud faint o fraint ydoedd i gael Paul yn aelod o'r tîm. Roedd llawer o fy nghyd-weithwyr yn adnabod Paul ers 30 mlynedd a mwy. Roedd yn sioc enfawr i ni fel tîm. Ni fyddwn yn anghofio Paul. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i anfon ein cydymdeimlad diffuant at deulu Paul.*

**Peter Hemming, Tîm Diogelwch Nos – Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd**

*Roedd Paul yn gyd-weithiwr ac yn ffrind mawr a oedd hapusaf yn gwneud gwaith elusennol, yn helpu eraill ac yn gweithio'n ddygn i gyrraedd ei dargedau. Rwy'n un o'r beicwyr ar 'Paul's Heart Ride' y byddwn yn ei gyflawni er anrhydedd iddo. Beiciais hefyd gyda Paul ar y reid elusennol ddiwethaf a gyflawnodd er budd cyn-filwyr ac ni fydd yr un peth hebddo nawr – byddwn yn gweld eisiau ei dynnu coes a'i anogaeth. Roedd Paul yn ddyn unigryw a gwelir ei eisiau'n fawr gan bawb.*

**Derek Glennie, Tîm Diogelwch – Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd**

*Roeddem oll yn y Ganolfan Chwaraeon yn drist iawn i glywed am farwolaeth Paul James, a arferai ddefnyddio ein cyfleusterau yn rheolaidd, ac a oedd yn gymeriad adnabyddus ar y campws. Yn wir, roedd 'Jacko', fel yr oedd pawb yn ei adnabod, wedi bod yn y Ganolfan Chwaraeon yn gynharach y diwrnod hwnnw, yn codi ymwybyddiaeth ac yn casglu arian er mwyn cefnogi ei her ddiweddaraf. Buon ni'n siarad am ei hyfforddiant a sut roedd pethau'n mynd, ac yn dymuno'n dda iddo ar ei fenter. Hoffai holl staff y Ganolfan Chwaraeon fynegi ein cydymdeimladau dwysaf â theulu Paul yn eu colled. Boed i gariad Paul tuag at bobl a'i frwdfrydedd tuag at fywyd a chwaraeon barhau.*

**Rachel Hubbard, Canolfan Chwaraeon y Brifysgol**

# Yr Athro Noel G Lloyd (1946 – 2019)

Cafodd teyrngedau eu talu i'r Athro Noel Lloyd, ein cyn Is-Ganghellor, a farw ar 8 Mehefin 2019 yn 72 oed.



Dechreuodd yr Athro Lloyd ar ei yrfa academaidd yng Nghaergrawnt lle bu'n astudio Mathemateg. Aeth ymlaen i gwblhau ei Ddoethuriaeth ac i fod yn Gymrawd Ymchwil yng Ngholeg Sant Ioan. Dadansoddi Aflinol a Systemau Dynamegol oedd ei ddiddordebau ymchwil.

Cyn ei benodi'n Is-Ganghellor yn 2004, gwasanaethodd yr Athro Lloyd y Brifysgol fel Cofrestrydd ac Ysgrifennydd, Dirprwy Is-Ganghellor, Deon y Gwyddorau a Phennaeth yr Adran Fathemateg.

Yn ystod ei gyfnod yn Is-Ganghellor, bu'n Gadeirydd Addysg Uwch Cymru (Prifysgolion Cymru) ac yn Is-Lywydd Universities UK.

Gwasanaethodd hefyd ar fwrdd UCEA (Universities and Colleges Employers Association) gan gadeirio'r pwyllgor Iechyd a Diogelwch, ac ar fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, gan gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu a Chydnabod Mynediad.

Yn 2010 derbyniodd y CBE yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei wasanaeth i Addysg Uwch yng Nghymru.

Daeth cydnabyddiaeth bellach i'w ran yn 2011 pan gafodd ei ethol yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yna yn 2012 pan gafodd ei urddo'n aelod o'r Orsedd.

Roedd hefyd yn organydd medrus, ac yn gymrawd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

Wedi ei ymddeoliad yn 2011, ymgymerodd â heriau newydd.

Daeth yn aelod annibynnol o Gomisiwn Silk a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU i edrych ar ddyfodol datganoli yng Nghymru. Gwasanaethodd hefyd ar y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gan ddod yn Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, a bu'n Gadeirydd Masnach Deg Cymru rhwng 2011 a 2017.

**Ymhlith y teyrngedau a dalwyd i'r Athro Noel Lloyd mae'r canlynol:**

*"Gwnaeth yr Athro Lloyd gyfraniad aruthrol i addysg uwch, nid yn unig fel ein Is-Ganghellor am saith mlynedd ond fel Mathemategydd o fri. Roedd yn ŵr hynod egwyddorol, deallus, trugarog a diflino ei gyfraniad, ac mae'n gadael bwlch mawr ar ei ôl."*

*"Mae teyrngedau o bell ag agos yn sôn am ei ddeallusrwydd, ei onestrwydd, a'i ddoethineb, ei wyleidd-dra, ei haelioni a'i ofal dros eraill."*

*"Ar nodyn personol, rwy'n cofio gweithio gydag academydd caredig, ystyriol a oedd yn arddel y gwerthoedd moesol uchaf yn ystod fy nghyfnod yng Nghaerdydd. Yn ddiweddarach fe'm croesawodd yn gynnes yma i'r Brifysgol, a fu'n gymaint yn rhan o'i fywyd. Yn syml, roedd yn wyddonydd disglair a gyfranodd gymaint at fywyd cyhoeddus."*

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
Is-Ganghellor

*"Gwelais fy hun y parch oedd gan bobl tuag ato, nid ar sail ei ysgolheictod yn unig ond hefyd ei gymeriad hyfryd, ei degwch a'i ddidwylledd naturiol. Roedd ei haelioni, ei onestrwydd a'i ofal am eraill yr un mor ddwfn â'i ddeallusrwydd."*


**Gwerfyl Pierce Jones**
Dirprwy Ganghellor

*"Mae nifer y teyrngedau a dalwyd iddo ar ôl ei farwolaeth annhymig yn arwydd o'r parch oedd iddo fel Is-Ganghellor. Roedd yn drwyadl ei baratoadau, yn dawel gadarn ac yn deg. Ystyriwyd gan bawb ei fod yn hael a thosturiol, yn ddyn eithriadol ddidwyll. Uwch ben popeth, roedd yn hollol ymroddedig i'w Brifysgol."*

**Yr Athro Alun O Morris**
Athro Emeritws, Yr Adran Fathemateg

# Yr Athro Neville Greaves (1945 – 2019)

## Gyda thristwch mawr yr ydym yn nodi marw'r Athro Neville Greaves, cyn Bennaeth ein Hadran Ffiseg a chyn Gyfarwyddwr y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg.



Graddiodd yr Athro Greaves o Brifysgol St Andrews lle bu'n astudio Ffiseg, a dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth o Labordy Cavendish yng Nghaergrawnt.

Daeth i Aberystwyth yn 1996 i fod yn Athro grŵp ymchwil newydd mewn Ffiseg Deunyddiau a Phennaeth Adran yn dilyn gyrfa nodedig yn Ffynhonnell Ymbelydredd Syncrotron yn Labordy Daresbury, lle'r adeiladodd gyfleusterau Sbectrosgopeg pelydr-X a sefydlu'r Adran Gwyddor Deunyddiau.

Arloesodd ar ddatblygiad technegau pelydr-X cyfunol gan ddod â sbectrosgopeg, diffreithiant a gwasgariad at ei gilydd yn yr un arbrawf, ac yn 1990 derbyniodd Wobr Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gyflwynwyd iddo gan Urdd y Gwerthwyr Gwydr am ei waith ar strwythur gwydr.

Yn 2003 daeth yn Gyfarwyddwr ar y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg newydd a pharhaodd yn y swydd tan 2010 pan ddaeth yn Athro Ymchwil Nodedig mewn Ffiseg a hefyd yn Gymrawd Ymchwil Nodedig yn yr Adran Gwyddor Deunyddiau a Meteleg ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Mae teyrnged lawn i'r Athro Neville Greaves, wedi'i hysgrifennu gan Bennaeth presennol yr Adran Ffiseg, yr Athro Andrew Evans i'w gweld ar-lein www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/obituaries/obituary-profiles/neville-greaves

*"Yn gydweithiwr ac arweinydd naturiol, roedd brwdfrydedd ac ymroddiad Neville yn ysbrydoliaeth i ni gyd ac roedd ei gyfraniad at ei faes a'i brifysgol yn aruthrol. Roedd ganddo lawer o ddiddordebau a gwybodaeth eang ar bynciau y tu hwnt i wyddoniaeth ac roedd bob amser yn gwmni rhagorol. Roedd yn gerddor dawnus a chanddo lais canu ardderchog a barn gadarn nad oedd ofn ei rannu."*

**Yr Athro Andrew Evans -** Pennaeth yr Adran Ffiseg

# Athro IBERS yn derbyn gwobr ar ôl ei farwolaeth

Mae Gwobr nodedig Syr John Hammond, a ddyfernir gan Gymdeithas Gwyddor Anifeiliaid Prydain, wedi ei dyfarnu i'r diweddar Kevin Shingfield (1968-2016) i gydnabod ei gyfraniad eithriadol i wyddor anifeiliaid. Roedd Kevin yn Athro Ffisioleg Faethol yn IBERS.

Wrth gyflwyno'r wobr yng nghinio cynhadledd y Gymdeithas yng Nghaeredin ar 10 Ebrill, siaradodd yr Is-Lywydd Hŷn, yr Athro Michael Lee, gydag anwyldeb am gyd-weithiwr, gwyddonydd a chyfaill nodedig a oedd yn annwyl gan bawb ac yn uchel ei barch:

*"Rhywun a fyddai, heb amheuaeth wedi bod yn llywydd y Gymdeithas yn y dyfodol, mi roedd - ac mae - yr Athro Kevin Shingfield yn wyddonydd anifeiliaid anhygoel".*

*"Mae ei waddol yn parhau a bydd unrhyw un a fydd yn gweithio ym maes biocemeg lipid anifeiliaid cnoi cil ac yn deall dyddodi metabolaeth lipidau i laeth, yn defnyddio'r ymchwil a arweiniodd ef ac yn dyfynnu Kevin Shingfield".*

*"Rwy'n cofio'r deryn ynddo, un a fu'n gefnogwr gwych i gynifer ohonom ni, ac mae llawer o eiliadau doniol ac atgofion melys o Kevin y ffrind a gwyddonydd arbennig y gwelir ei eisiau yn fawr".*

Derbyniwyd y wobr gan frawd Kevin, Steve, a ddywedodd:

*"Ers marwolaeth Kevin, mae'r teulu a minnau wedi ein syfrdanu gan y negeseuon rydym wedi'u derbyn yn sôn am ei waith ymchwil, a'i effaith a'i waddol barhaus.*

*"Doeddwn i ddim yn deall nac yn amgyffred ei waith gwyddonol yn llwyr. Roeddem, yn amlwg, yn falch iawn o'i gymwysterau, a theitlau ei swyddi ond, wrth edrych yn ôl, yr hyn y dylem fod wedi bod yn fwyaf balch ohono oedd y wyddoniaeth ei hun".*



*"Byddai Kevin wedi dathlu ei ben-blwydd yn 52 oed ddydd Gwener [12 Ebrill] ac rwy'n gwybod, pe bai yma gyda ni heddiw, byddai wedi ystyried mai hon oedd yr anrheg ben-blwydd orau posibl. Byddaf innau a fy nheulu yn ei thrysori'n fawr, diolch i chi i gyd".*

# Arddangosfeydd

## Oriel yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr.

**Ar Agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 10yb tan 5yp.  Mynediad am ddim.**


Mae gwaith adeiladu'n mynd ymlaen ger mynedfa flaen yr Ysgol Gelf.

Fodd bynnag, mae'r arddangosiadau ar agor fel arfer – dilynwch yr arwyddion 'Mynediad' ac ewch i mewn i'r adeilad drwy'r drws cefn.

### Ailymweld â Chymru a'r Mudiadau Modern

**Tan 30 Awst 2019**

Mae 'Ailymweld â Chymru a'r Mudiadau Modern' yn edrych yn ôl ar arddangosfa – 'Cymru a'r Mudiadau Modern' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1973 – sy'n ceisio dehongli digwyddiadau yng nghelfyddyd yr ugeinfed ganrif drwy weithiau arlunwyr sy'n gweithio yng Nghymru. Mae'r arddangosfa yn tynnu ar gasgliad yr Ysgol Gelf a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gynnig ciplun o arferion celfyddyd modern yng Nghymru drwy gydol y ganrif ddiwethaf.



*Blue Grass gan Sheila Hourahane, acrylig ar gynfas, 1973.*

### Clasurol/Rhamantaidd: gweithiau o Gasgliad yr Ysgol Gelf

**Tan 30 Awst 2019**

Wedi'i guradu gan israddedigion ar y modiwl 'Curadu Arddangosfa: Ymchwilio, Dehongli, Arddangos'

Oriel yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr.  Ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, 10am i 5pm. Mynediad am ddim.



*'Pan' gan Natalia Dias, porslen a chrochenwaith, wedi'i brynu gan yr Eisteddfod Genedlaethol, 2010*



# Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth




Gwnewch yn siŵr eich bod yn codi rhaglen Canolfan y Celfyddydau ar gyfer tymor yr haf, sydd hefyd ar gael ar y wefan: www.aberystwythartscentre.co.uk



## Sioe Gerdd Tymor yr Haf Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth OLIVER! gan Lionel Bart

**Llyfr, Cerddoriaeth a Geiriau gan Lionel Bart**
**Dydd Gwener 9 - Dydd Sadwrn 31 Awst**
**Perfformiadau 7.30pm: Nos Fawrth tan Nos Sadwrn**
**Sioeau prynhawn 2.30pm: Dydd Mercher, Dydd Iau, Dydd Sadwrn a Dydd Sul**
**£30 (£28 Gostyngiadau a Grwpiau), Teulu £112**

Mae Richard Cheshire yn dychwelyd i Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i gyfarwyddo Sioe Haf broffesiynol y Ganolfan eleni, Oliver!

Mae'r addasiad cerddorol arobryn o nofel glasurol Dickens yn dod yn fyw, yn nodweddu rhai o'r cymeriadau a chaneuon mwyaf cofiadwy i daro'r llwyfan erioed.

Gwnewch eich hun yn gartrefol gyda sioe gerdd glasurol Lionel Bart yn seiliedig ar nofel Charles Dickens, Oliver Twist. Mae'r sioe, sydd wedi ennill gwobrau Tony ac Olivier, yn un o'r ychydig sioeau cerdd i ennill Gwobr Academi am Ffilm Orau ac fe'i hystyrir yn eang fel gwir gampwaith theatraidd gan actorion ac aelodau'r gynulleidfa fel ei gilydd.

Mae strydoedd y Lloegr Fictoraidd yn dod yn fyw pan ddaw Oliver, plentyn amddifad newynog sy'n byw mewn tloty, yn brentis i drefnwr angladdau creulon. Mae Oliver yn dianc i Lundain ac yn ffeindio'i hun yn cael ei dderbyn ymysg criw o fân ladron o dan arweiniad y Fagin oedrannus. Pan mae Oliver yn cael ei ddal am drosedd nad oedd wedi cyflawni, mae dioddefwr y lladrad, y Mr. Brownlow caredig, yn ei gymryd i mewn. Yn poeni am ddiogelwch ei guddfan mae Fagin yn cyflogi'r Bill Sikes sinistr a'r Nancy gydymdeimladol i'w gipio'n ôl, sy'n golygu bod cyfle Oliver i ddarganfod gwir gariad gyda theulu yn y fantol.

Mae Oliver! yn gampwaith theatr gerddorol, sy'n arddangos yn berffaith talentau cast ensemble mawr wrth iddynt ddod â'r cymeriadau clasurol hyn a'r sgôr yn fyw ar y llwyfan.

Perfformwyd Oliver! y tro olaf yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn 2005, pan fu'r actor adnabyddus lleol Taron Egerton yn serennu fel yr Artful Dodger ochr yn ochr â llu o berfformwyr ifanc talentog eraill. Er na fydd Taron yn dychwelyd, 'rydym wrth ein bodd yn croesawu llawer o aelodau'r cast gwreiddiol o 2005 yn ôl, sydd erbyn hyn yn actorion proffesiynol - ac 'rydym yn siwr y gwelir mwy o sêr y dyfodol ymysg ein cast newydd o bobl ifanc!

Cyflwynir trwy drefniant gyda Music Theatre International (Europe) Ltd.
International (Europe) Ltd.

